Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

EDWARDS, DAVID (1858 - 1916), newyddiadurwr

Enw: David Edwards
Dyddiad geni: 1858
Dyddiad marw: 1916
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: newyddiadurwr
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 11 Ebrill 1858. Bu'n brentis yn swyddfa'r *Herald* yng Nghaernarfon, ac yna yn aelod o staff y *Liverpool Daily Post*. Dychwelodd i Gaernarfon fel rheolwr y grwp papurau a oedd yn gysylltiedig â'r *North Wales Observer*, 1884-91. O 1891 hyd 1897 ef oedd rheolwr-olygydd y *Nottingham Daily Express* a'r *Evening News* a berthynai iddo. Bu'n rheolwr cynorthwyol y *London Daily News*, 1897-1901, ac yn olygydd a rheolwr, 1901-2. Dychwelodd i Nottingham a bu'n olygydd a rheolwr-gyfarwyddwr yr *Express* a'r *Evening News* o 1908 hyd ei farwolaeth, 22 Chwefror 1916. Dylid ychwanegu at y crynodeb uchod (a godwyd o *Who Was Who*) y ffaith mai ef a R. A. Griffith a J. Owen Jones oedd awduron ffugenwol *The Welsh Pulpit... by a Scribe, a Pharisee, and a Lawyer*, 1894. Edwards oedd y 'Scribe'.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jenkins, R. T., (1970). EDWARDS, DAVID (1858 - 1916), newyddiadurwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-EDWA-DAV-1858

Copïo i'r clipfwrdd

LLYFRGELL
THE NATIO